TheyWorkforYou bellach yn gweithio ar eich rhan yn Y Senedd

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

- Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae safle seneddol MySociety sef TheyWorkForYou.com bellach yn ymdrin â thrafodion Y Senedd yn Gymraeg a Saesneg
- Dadleuon Y Senedd i'w cyhoeddi'n ddyddiol; holl Aelodau'r Senedd i'w rhestru gyda chofnodion o'u cyfraniadau a'u pleidleisiau
- Bydd y prosiect yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwrpas a gweithgareddau'r Senedd

Diolch i gyllid Llywodraeth Cymru, mae'r elusen mySociety wedi ychwanegu'r Senedd at eu gwefan seneddol TheyWorkForYou. Mae'r wefan bellach yn ymdrin â dadleuon a rhestr o holl Aelodau'r Senedd, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gyda'r ychwanegiad hwn mae TheyWorkForYou, sydd hefyd yn cyhoeddi trafodion Senedd San Steffan, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, bellach yn cwmpasu holl seneddau deddfu'r Deyrnas Unedig.

Maent yn gweithio i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o weithredoedd ein cynrychiolwyr etholedig, trwy ddefnyddio'r wybodaeth a'r data agored a ddarperir gan y sefydliadau hyn, a chrynhoi'r wybodaeth mewn un lle.

Hysbysiadau e-bost Y Senedd

Un nodwedd allweddol o TheyWorkForYou yw ei hysbysiadau e-bost. Gall unrhyw un gofrestru ar gyfer e-byst am yr hyn y mae eu cynrychiolwyr yn ei ddweud, neu i'w hysbysu pan fydd pynciau o ddiddordeb yn codi mewn dadleuon. Mae hysbysiadau hefyd yn anhepgor i elusennau, cwmnïau a llywodraethau sy'n eu defnyddio i fonitro trafodaethau seneddol ar bynciau sy'n ymwneud â'u gwaith. Mae mySociety yn anfon miliynau o'r hysbysiadau e-bost hyn allan bob blwyddyn.

Dwedodd **Prif Weithredwr MySociety, Louise Crow**, "Drwy ymestyn ein sylw - ac yn enwedig ein hysbysiadau e-bost - i'r Senedd, rydym yn gobeithio helpu pobl a sefydliadau sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei ddweud a gwneud yn eu senedd ddatganoledig".

Casglu mwy o wybodaeth am Aelodau'r Senedd a'i rhaeadru i ddefnyddwyr TheyWorkForYou

Pan fydd defnyddwyr yng Nghymru yn nodi eu côd post ar wefan TheyWorkForYou, byddant yn gweld Aelodau'r Senedd yn ogystal â'u AS (Aelod Seneddol) yn San Steffan.

Byddant yn gallu gwirio y tro diwethaf y pleidleisiodd eu Haelod o'r Senedd a'r hyn y maent wedi bod yn ei ddweud mewn dadleuon, yn ogystal â defnyddio swyddogaeth chwilio bwerus y wefan i gael crybwylliadau blaenorol ar thema o ddiddordeb. Gall defnyddwyr mwy 'tech' hefyd ddefnyddio'r data ar gyfer eu prosiectau eu hunain trwy ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) TheyWorkForYou.

Mae chwaer-safle TheyWorkForYou, sef WriteToThem.com, yn caniatáu i bobl anfon e-bost at eu cynrychiolwyr etholedig yn gyflym ac yn hawdd. Mae'r safle hwn eisoes yn cynnwys Aelodau o'r Senedd. Mae'r ddau wasanaeth yn cysylltu â'i gilydd fel y gallwch glicio i WriteToThem ac anfon e-bost wedi i chi wirio gweithgaredd eich Aelod o'r Senedd ar TheyWorkForYou, pe baech yn dymuno ymateb iddynt.

Ychwanegodd Louise Crow, "Mae hwn yn gam mor bwysig, ac yn un rydym wedi eisiau cymryd ers blynyddoedd lawer. Nawr, diolch i gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi gallu cwblhau'r gwaith sydd ei angen i ychwanegu'r Senedd yn fformat cwbl hygyrch TheyWorkForYou.

"Mae hyn yn barhad o'n cenhadaeth i wneud mynediad at Seneddau'r Deyrnas Unedig yn haws i bawb; er mwyn eu deall ac ymgysylltu â nhw. Trwy gyhoeddi dadleuon yn rheolaidd, ynghyd â swyddogaethau chwilio a hysbysu TheyWorkForYou, rydym am gefnogi dinasyddion Cymru a'r gymdeithas sifil i chwarae rhan weithredol mewn democratiaeth."

Dywedodd Mick Antoniw, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad:

"Rydym wedi bod yn falch o weithio gyda mySociety fel rhan o'n hymdrechion i gynnwys cymaint o bobl â phosibl yn ein democratiaeth. Bydd gallu dilyn pynciau a derbyn diweddariadau am yr hyn sy'n digwydd yn y Senedd yn helpu pobl i weld sut rydym yn trafod y materion sydd bwysicaf iddyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio i gryfhau cysylltiad pobl â democratiaeth ac i sicrhau ei fod yn agored i fwy o bobl."

Ynglŷn â TheyWorkForYou:

Lansiwyd TheyWorkForYou dros ugain mlynedd yn ôl, gyda'r nod o gael Senedd Y Deyrnas Unedig fwy hygyrch yn oes y rhyngrwyd. Mae mySociety, yr elusen sy'n rheoli'r safle, yn credu y dylai gwybodaeth am ein cynrychiolwyr etholedig fod yn hawdd ei deall ac yn hygyrch i bawb—nid ond gwleidyddion neu'r rheiny sy'n gallu talu.

Mae TheyWorkForYou bellach yn cwmpasu holl seneddau'r DU er mwyn crynhoi'r wybodaeth mewn un lle, a'i gwneud yn hygyrch i ddinasyddion ac i'r gymdeithas sifil. O arolwg Opinium 2021: mae **un o bob tri** oedolyn yn y Deyrnas Unedig wedi clywed am y safle, ac mae **un o bob pump** wedi ymweld ag ef. Yn gyffredinol, dros y 10 mlynedd diwethaf, ganddynt dros chwe miliwn o ymweliadau tudalen y flwyddyn.

Ynglŷn â mySociety:

Mae mySociety yn sefydliad dielw sy'n ceisio adfywio democratiaeth trwy greu technolegau a data digidol er mwyn rhoi mwy o rym yn nwylo mwy o bobl.

Dolenni:

- https://www.theyworkforyou.com TheyWorkForYou
- https://cy.theyworkforyou.com/senedd/ Senedd - Cymraeg
- https://www.theyworkforyou.com/senedd Senedd - Saesneg
- https://www.mysociety.org/press/ logos y mySociety a TheyWorkForYou
- https://www.mysociety.org/ gwefan y mySociety

Cysylltwch:

mySociety: Cysylltwch â'r Rheolwr Cyfathrebu Myfanwy Nixon ar press@mysociety.org neu 07976 961 845

Datganiad Cymraeg gan Dai Lingual
Mae ein ymgynghorydd Cymraeg Wyn Williams ar gael ar gyfer cyfweliadau yn Gymraeg ar gyfer y lansiad hwn - cysylltwch â Wyn yn uniongyrchol: dailingual@icloud.com neu 07964 684 820.